

**\*\*DYLAI CYNGHORAU LAWRLWYTHO'R SET HON O WEFAN LLYWODRAETH  
CYMRU A'I HADDASU YN ÔL YR ANGEN\*\***

---

**IS - DDEDDFAU MODEL - SET 3**

---

***[Enw'r Cyngor]***

**IS-DDEDDFAU AR GYFER MANGREOEDD DIFYRRWCH**

**TREFN YR IS-DDEDDFAU**

1. Dehongli
2. Cymhwyso
- 3-4. Rheoleiddio oriau agor
- 5-6. Allanfeydd Diogel
- 7-12. Niwsans, glendid, trefn a diogelwch y cyhoedd
13. Atal Tân
14. Y Gosb
15. Amddiffyniad
16. Dirymu

Is-ddeddfau ar gyfer mangreuedd difyrrwch a wnaed gan [*rhowch enw'r cyngor*] o dan adran 75 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961, fel y'i diwygiwyd gan adran 22 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ac adran 20 o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.

## Dehongli

1. Yn yr is-ddeddfau hyn:

(a) ystyr "mangre ddifyrrwch" yw unrhyw le sy'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu adloniant o fewn yr ystyr a roddir i "entertainments" yn adran 75(3)(f) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961, ac mae'n cynnwys unrhyw adeiladwaith, cerbyd sefydlog, llong, stondin, carafán, trelar neu babel lle ceir peiriannau awtomatig neu beiriannau eraill sy'n cael eu bwriadu fel adloniant neu ddifyrrwch;

(b) ystyr "y Cyngor" yw [*rhowch enw'r cyngor*];

(c) ystyr "rheolwr" yw'r person sydd â gofal dros yr adloniant a ddarperir neu y bwriedir ei ddarparu yn y fangre ddifyrrwch fel y'i diffinnir yn is-ddeddf (1)(a) uchod.

## Cymhwyso

2. (a) Nid yw'r is-ddeddfau hyn ond yn gymwys i ffeiriau pleser o fewn yr ystyr a roddir i "pleasure fairs" yn adran 75(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 sy'n fangreuedd difyrrwch;

(b) Nid yw'r is-ddeddfau hyn yn gymwys i fangreuedd sy'n cael eu trwyddedu neu eu cofrestru o dan Ran 8 o Ddeddf Hapchwarae 2005 nac i glybiau aelodau na sefydliadau lles glowyr a gofrestrwyd o dan Ran 12, adrannau 266 a 268, o'r Ddeddf honno.

## Rheoleiddio oriau agor

3. (i) Rhaid i'r rheolwr beidio â chadw'r fangre ddifyrrwch ar agor rhwng [*rhowch yr amser*] a [*rhowch yr amser*].

(ii) Caiff y Cyngor, drwy benderfyniad, amrywio'r oriau hyn mewn achosion penodol neu yn gyffredinol.

4. (i) Rhaid i'r rheolwr roi o leiaf 5 niwrnod gwaith o rybudd ysgrifenedig ymlaen llaw i'r Cyngor os yw'n bwriadu defnyddio unrhyw fangre ddifyrrwch, gan bennu'r dyddiad a'r lle y mae'r fangre ddifyrrwch honno i'w defnyddio.

(ii) Rhaid i'r rhybudd sydd i'w roi o dan yr is-ddeddf hon fod yn ychwanegol at unrhyw rybudd y mae'n ofynnol ei roi o dan unrhyw ddeddfiad arall ac nid yn lle unrhyw rybudd o'r fath.

## Allanfeydd Diogel

5. (i) Rhaid i'r rheolwr ddarparu, er boddhad y Cyngor a'r awdurdod tân, allanfeydd digonol o'r fangre ddifyrrwch i alluogi personau sy'n defnyddio'r fangre i ymadael yn ddiogel i le diogel yn yr awyr agored a, phan fo aelodau o'r cyhoedd yn y fangre, rhaid iddo sicrhau nad yw unrhyw ddrysau sy'n darparu allanfeydd wedi eu cloi neu eu cau yn y fath fodd fel na all personau sy'n ymadael â'r fangre mewn argyfwng eu hagor yn hawdd ac ar unwaith. Pan ddarperir bolltiau braw ar allanfeydd, rhaid nodi "gwthiwch y bar i agor" yn glir arnynt.
  - (ii) Rhaid i'r rheolwr ddarparu arwyddion diogelwch tân er mwyn dangos yn glir y llwybrau ymadael brys o unrhyw ran o'r fangre y mae'r cyhoedd yn cael mynd iddi.
6. Mae'r rheolwr i fod yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl eiliau a'r holl lwybrau ymadael yn ddigon llydan ac yn rhydd rhag rhwystrau.

## Niwsans, glendid, trefn a diogelwch y cyhoedd

7. Rhaid i'r rheolwr sicrhau bod pob rhan o'r fangre ddifyrrwch y mae personau'n cael mynd iddi a phob ffordd allan o'r fangre yn cael eu goleuo gan oleuadau arferol a goleuadau brys, er boddhad yr awdurdod tân. Rhaid iddo hefyd sicrhau bod y goleuadau yn rhoi digon o olau yn y rhannau hynny i bob person sy'n defnyddio'r fangre fynd oddi yno'n ddiogel.
8. Rhaid i'r rheolwr sicrhau bod pob system oleuo yn cael ei chynnal a'i chadw ac yn gweithio a bod y fangre'n cael ei goleuo'n ddigonol ar bob adeg y mae personau yn y fangre.
9. Rhaid i'r rheolwr sicrhau bod pob cyfarpar gwresogi yn cael ei osod mewn ffordd sy'n osgoi:
  - (a) perygl o dân neu anaf i bersonau sy'n defnyddio'r fangre ddifyrrwch; a
  - (b) i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, ymyrraeth gan bobl heb yr awdurdod i wneud hynny.
10. Rhaid i'r rheolwr beidio â chaniatáu, yn ymwybodol:
  - (a) i'r fangre ddifyrrwch fod yn gyrchfan arferol neu'n fan cyfarfod i buteiniaid tybiedig, ond nid yw hynny'n rhwystru'r rheolwr rhag caniatáu i bersonau o'r fath aros yn y fangre at ddiben defnyddio'r peiriannau difyrrwch am y cyfnod sy'n angenrheidiol at y diben hwnnw; a
  - (b) i unrhyw berson sy'n feddw neu'n afreolus ddod i mewn i'r fangre ddifyrrwch nac aros yno.

11. (a) Rhaid i'r rheolwr gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol i atal sŵn rhag dianc o'r fangre ddifyrrwch.
- (b) Rhaid i'r rheolwr sicrhau, pan fo hynny'n bosibl, bod drysau allanol y fangre ddifyrrwch yn aros ar gau, heblaw pan fyddant yn cael eu defnyddio, drwy osod dyfais arnynt sy'n eu cau'n awtomatig neu drwy ddulliau tebyg.
12. Rhaid i'r rheolwr sicrhau bod y fangre ddifyrrwch yn cael ei goruchwyllo gan o leiaf un person cyfrifol, sydd wedi ei hyfforddi'n ddigonol, drwy gydol yr amser y bydd y fangre honno ar agor i fusnes.

### **Atal Tân**

13. Rhaid i'r rheolwr:
- (a) ymgynghori â'r awdurdod tân ynglŷn â rhagofalon tân yn y fangre ddifyrrwch a rhoi sylw dyladwy i'w sylwadau;
- (b) darparu, a chynnal a chadw mewn cyflwr da ac mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn gweithio:
- (i). unrhyw gyfarpar diffodd tân; a
- (ii). unrhyw gyfarpar rhybuddio am dân sy'n ofynnol gan yr awdurdod tân;
- (c) cadw'r cyfarpar diffodd tân mewn man amlwg lle gellir cael gafael arno'n hawdd; a
- (d) hyfforddi'r holl staff ar y camau i'w cymryd os oes tân, gan gynnwys y gweithdrefnau ymadael, a chadw cofnod o hyfforddiant o'r fath.

### **Y Gosb**

- 14 Mae unrhyw berson sy'n tramgwyddo yn erbyn unrhyw un o'r is-ddeddfau uchod yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

### **Amddiffyniad**

15. Mae gan berson amddiffyniad os yw'n gallu profi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni tramgwydd o dan yr is-ddeddfau hyn.

### **Dirymu**

16. Mae'r is-ddeddfau ar gyfer mangreoedd difyrrwch a wnaed gan [*mewn*soder Llywodraeth Cymru 2015

*enw'r cyngor a wnaeth yr is-ddeddfau blaenorol] ar [mewnosoder y dydd, y mis a'r flwyddyn] ac a gadarnhawyd ar [mewnosoder y dydd, y mis a'r flwyddyn] gan [mewnosoder enw'r awdurdod cadarnhau] wedi eu dirymu.*